

SEFYLLFA IECHYD CYHYRYSGERBYDOL 2024

Arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol
eraill mewn niferoedd



DATA
VERSUS
ARTHRITIS

CYNNWYS

Cyflwyniad a Dulliau 3

Beth yw arthritis? 4

01 Iechyd y boblogaeth 5

Faint o bobl sydd ag arthritis? 6

Beth yw cyflyrau cyhyrsgerberbydol? 9

Faint o bobl sydd â chyflyrau cyhyrsgerberbydol? 10

Anghydraddoldebau iechyd 11

02 Yr Unigolyn 16

Effaith arthritis a chyflyrau cyhyrsgerberbydol 17

Arthritis, cyflyrau cyhyrsgerberbydol a chyflyrau hirdymor lluosog 20

Arthritis, cyflyrau cyhyrsgerberbydol, ac iechyd ehangach 22

03 Darpariaeth 25

Mynediad at ofal 26

04 Effaith ar y gymdeithas 28

Yr effaith ar ofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, a'r economi 29

05 Cyflyrau lle mai arthritis yw'r prif symptom 31

Osteoarthritis 32

Gowt 34

Arthritis Gwynegol 36

Arthritis Soriatig 38

Spondyloarthritis Echelinol 40

Arthritis Idiopathig Ieuencid (JIA) 42

06 Cyflyrau lle mae arthritis yn un symptom ymhlith llawer 44

Lwpws 45

07 Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol eraill 47

Poen cronig 48

Poen cefn 51

Ffibromyalgia 53

Osteoporosis a thoriadau esgyrn brau 55

Rhestr termau 56

Cyfeiriadau 57

CYFLWYNIAD A DULLIAU

Beth yw Cyflwr Iechyd Cyhyrsgerberbydol?

Mae Cyflwr Iechyd Cyhyrsgerberbydol yn gasgliad o'r ystadegau mwyaf diweddar ar gyfer y DU gyfan ynghylch arthrits a chyflyrau cyhyrsgerberbydol (MSK) eraill. Mae hyn yn cynnwys faint o bobl sydd â'r cyflyrau hyn, y nifer sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflyrau hyn, effaith y rhain ar unigolyn, ar ysystem iechyd ac ar y gymdeithas, ac anghydraddoldebau sydd i'w gweld o fewn yr holl bynciau uchod.

Ar gyfer pwy mae'r adnodd hwn?

Mae'n adnodd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, llunwyr polisi, arweinwyr iechyd cyhoeddus, ymchwilwyr, pobl â'r cyflyrau hyn, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn iechyd MSK. Rydym yn credu gyda'r wybodaeth orau y gallwch chi adeiladu ymwybyddiaeth, gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, teimlo'n fwy hyderus ac, yn y pen draw, helpu mwy o bobl sydd â chyflyrau MSK, megis arthrits.

Ynglŷn â Versus Arthritis


Mae gan dros 10 miliwn o bobl yn y DU arthrits¹. Dyna un o bob chwech o bobl yn byw gyda'r boen, blinder, diffyg symudedd a dehurwydd y gall ei achosi. Mae'r effaith yn enfawr gan y gall y cyflyrau hyn ymyrryd â bywyd bob dydd – gan effeithio ar y gallu i weithio, gofalu am deulu, symud heb boen a byw'n annibynnol. Er hynny, mae arthrits yn aml yn cael ei ddiystyru fel rhan anochel o heneiddio neu ei ddiystyru fel 'dim ond bach o arthrits ydyw'. Nid ydym yn meddwl bod hyn yn iawn. Mae Versus Arthritis yma i newid hynny.

[Darganfyddwch fwy am Versus Arthritis yma.](#)

Dulliau

Mae data, gwybodaeth a mewnwelediadau am gyflyrau MSK fel arthrits ar gael o nifer o ffynonellau. Yma yn Versus Arthritis, rydym yn barnu'r holl dystiolaeth ar sail teilyngdod unigol ac mae 'tystiolaeth dda' yn dystiolaeth sy'n cyfleu anghenion, profiadau a safbwyntiau pobl sydd ag arthrits a chyflyrau cyhyrsgerberbydol yn gywir. Gall gwahanol fathau o dystiolaeth helpu i ateb gwahanol fathau o gwestiynau. Yr hyn sy'n allweddol yw dewis dystiolaeth yn seiliedig ar y cwestiwn a'r hyn sydd fwyaf perthnasol a defnyddiol i'w ateb. Mae Ffigur 1 yn dangos hierarchaeth dystiolaeth. Mae'n bwysig nodi, er bod gan fframweithiau o'r fath eu rhinweddau mewn cyd-destunau penodol, nid ydynt heb eu cyfyngiadau oherwydd gallai rhoi safle ar dystiolaeth yn y modd hwn ffafrio rhai ffynonellau dystiolaeth yn anuniongyrchol dros eraill.

Daw'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn bennaf o astudiaethau meintiol a thystiolaeth o'r byd go iawn. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys dystiolaeth a gynhyrchwyd o ddulliau methodolegol eraill, ac efallai nad yw rhai ohonynt yn uchel eu statws mewn hierarchaethau o'r fath. Mae'r dystiolaeth fath hon, sy'n tynnu ar brofiad byw o gyflyrau MSK fel arthrits, yn ychwanegu dyfnder a chyd-destun cynyddol at rai o'r ystadegau a gyflwynir gennym yn yr adroddiad hwn.



Ffigur 1. Hierarch Tystiolaeth²

BETH YW ARTHRITIS?

Mae arthritis yn cyfeirio at gymalau poenus, anystwyth neu gyfyngedig. Mae'r symptomau hyn yn gyffredin mewn cyflyrau sy'n achosi niwed neu lid ar y cymalau. Mae'r rhain yn cynnwys osteoarthritis (OA), cyflyrau arthritis llidiol awtoimiwn gan gynnwys spondyloarthritis echelinol, arthritis gwynegol, arthritis grisial (fel gowt), neu fel symptom o glefydau meinwe gyswllt llidiol (fel lwpws).

Defnyddir arthritis hefyd fel term ymbarél ar gyfer ystod o gyflyrau lle mai arthritis yw eu prif symptom.

Mae'r rhan fwyaf o fathau o arthritis yn gyflyrau hirdymor. Y math mwyaf cyffredin yw osteoarthritis, lle nad yw'r corff yn gallu cynnal a thrwsio'r cymalau gan arwain at deneuo a difrodi cartilag, oherwydd cynnydd mewn oedran neu anaf i gymal. Mae osteoarthritis yn effeithio'n bennaf ar oedolion hŷn ac mae'n anghyffredin ymhlith pobl o dan 45 oed. Yn aml, mae gan bobl ag arthritis sawl cyflwr hirdymor.

Mathau llai cyffredin o arthritis yw cyflyrau awtoimiwn, fel arthritis gwynegol (RA), arthritis soriatig a spondyloarthritis echelinol. Yma mae'r system imiwedd yn ymosod ac yn gwneud y cymalau'n llidus a'r meinweoedd cyfagos gan achosi chwyddo, poen, anystwythder a niwed i'r cymalau. Y dechreuad mwyaf cyffredin yw canol oed fel arfer, ond gall y rhain daro ar unrhyw oedran gan gynnwys Arthritis Idiopathig Ieuencid (JIA) yn ystod plentyndod. Mae arthritis hefyd yn symptom cyffredin mewn cyflyrau hunanmiwn nodweddiadol prin eraill, gan gynnwys lwpws, sarcoid a chlefyd Behçet.

Mae cyflyrau fel gowt yn fathau o arthritis grisial, lle mae pobl yn cael episodau arthritis difrifol ond hunangyfyngol a achosir gan grisialau microsgopig yn cael eu dyddodi yn y cymalau ac o'u cwnpas.

Gan fod pobl yn aml yn cael mwy nag un math o arthritis ar yr un pryd (fel osteoarthritis ochr yn ochr â math o arthritis llidiol), ni ellir amcangyfrif maint y boblogaeth ag arthritis trwy adio niferoedd y gwahanol fathau mwyaf cyffredin at ei gilydd. Yr amcangyfrif gorau ar hyn o bryd yw bod gan rhwng 10 ac 11 miliwn o bobl yn y DU arthritis.^{1,87}

**MAE GAN DROS
10 MILIWN
O BOBL
YN Y DU
ARTHRITIS¹**

1/6



01

**IECHYD Y
BOBLOGAETH**

FAINT O BOBL SYDD AG ARTHRITIS?

Nid oes ffigur pendant ynghylch nifer y bobl sydd ag arthritis yn y DU.

Yn lle hynny, i greu amcangyfrifon o nifer y bobl sydd â phob un o'r mathau o arthritis, mae ymchwilyr yn dibynnu ar ystod o ffynonellau data i amcangyfrif faint o bobl sydd â chyflwr penodol. Mae'r data hyn yn amrywio o ran sut y maent yn adnabod rhywun ag arthritis, a'u cwmpas ar draws poblogaeth y DU.


Wrth i ddata gyda gwahanol ffyrdd o nodi a oes gan rywun arthritis, neu well cwmpas o'r boblogaeth ddod ar gael, gall ymchwilyr ddiweddarau amcangyfrifon. Gall y cyffredinwydd gwirioneddol sylfaenol hefyd newid dros amser gyda newidiadau yn nodweddion y boblogaeth, megis lefelau gordewdra, tlodi, a newidiadau yn y cymysgedd ethnig.

Mae'r amcangyfrifon cyffredinwydd sydd gennym wedi'u seilio ar ddata o sampl o bobl, a ddefnyddir i roi amcangyfrif o'r gwir nifer yr achosion ym mhoblogaeth gyfan y DU. Wrth i'r samplau hyn wella yn eu cwmpas o'r boblogaeth, bydd yr amcangyfrifon yn dod yn fwy cywir.

Sut ydyn ni'n gwybod bod gan rywun arthritis?

Y cam cyntaf i amcangyfrif cyffredinwydd cyflwr yw diffinio pwy fydd yn cael eu cynnwys fel rhai 'sydd â'r cyflwr'. Mae sawl diffiniad y gellir eu defnyddio, yn dibynnu ar ble mae rhywun ar eu taith i gael diagnosis. Mae'r siwrnai arferol i ddiagnosis yn amrywio rhwng cyflyrau; er enghraifft, gall diagnosis o osteoarthritis fod yn bosibl trwy adolygu symptomau a chynnal archwiliad corfforol, tra bod gwneud diagnosis o JIA yn debygol o olygu bod angen cyfeirio at arbenigwr ac ymchwiliadau pellach.

Nifer y bobl sydd ag osteoarthritis y glun a'r pen-glin yn y DU³




Nifer y bobl ag osteoarthritis y pen-glin



Nifer y bobl sydd ag osteoarthritis y glun

FAINT O BOBL SYDD AG ARTHRITIS?

Gellir mesur cyffredinrwydd cyflyrau cyhyrysgerbydol ar wahanol adegau ar daith rhywun i gael diagnosis



Yn gyffredinol, dim ond codau a gofnodwyd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol y mae'r cronfeydd data cenedlaethol dienw o ddata gofal iechyd a ddefnyddir at ddibenion ymchwil, nid data testun rhydd. Mae hyn yn golygu os nad oes cod wedi'i nodi, neu os defnyddir y cod anghywir (hyd yn oed os yw'r diagnosis yn cael ei gofnodi mewn nodiadau mewn rhan arall o gofnodion claf) ni fydd ymchwilwyr yn cofnodi hyn yn eu dadansoddiad. Mae hyn yn debygol o achosi tanamcangyfrif o wir cyffredinrwydd o'r cyflwr.

FAINT O BOBL SYDD AG ARTHRITIS?

Pa fesurau y mae ein data cyffredinrwydd yn eu defnyddio?



Mae **11 MILIWN** o bobl yn adrodd am boen gwaelod y cefn mewn unrhyw flwyddyn benodol.³

Mae rhwng **18.4 MILIWN**¹² a **28 MILIWN**¹¹⁸ o bobl yn adrodd am boen cronig.

Amcangyfrifon gan y rhai sydd â diagnosis tebygol



Mae **10 MILIWN** o oedolion wedi cael diagnosis tebygol o osteoarthritis.¹

Mae gan **1.6 MILIWN** o oedolion ddiagnosis tebygol o gowt.⁷⁷

Mae gan **220,000** o oedolion ddiagnosis tebygol o spondyloarthritis echelinol.¹⁸⁵

Mae gan **190,000** o oedolion ddiagnosis tebygol o arthritis soriatig.⁴

Amcangyfrifon gan y rhai sydd â diagnosis wedi'i gofnodi



Mae **450,000** o oedolion wedi cael diagnosis o arthritis gwynegol wedi'i gofnodi.⁸⁷

Mae **10,000** o blant wedi cofnodi diagnosis o arthritis idiopathig ieuencid.¹⁰⁰

Mae **60,000** o oedolion wedi cael diagnosis o spondyloarthritis echelinol wedi'i gofnodi.⁸⁷

BETH YW CYFLYRAU CYHYRYSGERBYDOL?

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK) yn broblemau gyda'r cyhyrau, esgyrn, cymalau a meinweoedd cysylltiol cyfagos, gan arwain at gyfyngiadau dros dro neu gydol oes o ran gweithredu, a'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd. Fe'u nodweddir fel arfer gan boen a chyfyngiadau o ran symudedd a dehurwydd, gan gynnwys cyflyrau fel cyflyrau arthrits, poen cefn a gwddf, a ffibromyalgia. Gall rhai cyflyrau cyhyrysgerbydol fel osteoporosis fod yn ddi-boen.



Rwy'n teimlo poen drwy'r amser ac mae hyn yn effeithio ar fy ngallu i wneud tasgau o ddydd i ddydd. Mae pob tasg dwi'n dewis ei gwneud yn effeithio ar un arall. Er enghraifft, os byddaf yn dewis coginio rhywbeth, mae golchi dillad yn dod yn fwy anodd.

Chris



Poblogaeth y DU, 2022

67,508,936

20,295,706


Nifer y bobl sy'n byw gyda chyflwr MSK yn y DU



FAINT O BOBL SYDD Â CHYFLYRAU MSK?

Mae tua thraean o boblogaeth y DU, sef **DROS 20 MILIWN O BOBL** (20,295,706), yn byw gyda chyflwr MSK.⁵


Amcangyfrif nifer y bobl sydd â chyflwr MSK...



Plant a chyflyrau MSK hirdymor^{i,ii}

Plant a chyflyrau MSK hirdymor

Mae dau o bob 100 o blant (2%) o dan 16 oed yn Lloegr a'r Alban yn nodi bod ganddynt gyflwr MSK hirdymor.^{7,10}



i Wedi'i ddiffinio fel cyflwr neu salwch sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara blwyddyn neu fwy.

ii Nid oes data ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon a Chymru felly nid yw wedi'i gynnwys yn y ffeithlun.

ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD


Mae anghydraddoldebau iechyd yn “wahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi mewn iechyd ar draws y boblogaeth, a rhwng gwahanol grwpiau o fewn gymdeithas.”¹¹

Amddifadedd

Mae arthritis, cyflyrau MSK a phoen cronig yn fwy cyffredin mewn ardaloedd lle mae mwy o dlodi.

Arthritis⁶

Cyffredinrwydd osteoarthritis (OA) mewn pobl 45 oed a hŷn




Mae cyffredinrwydd osteoarthritis y glun yn uwch ymhlith pobl sy'n byw yn y degfed ran fwyaf difreintiedig o gymdeithas na'r rhai sy'n byw yn y degfed lleiaf difreintiedig.⁶

Mae cyffredinrwydd osteoarthritis y pen-glin yn uwch ymhlith pobl sy'n byw yn y degfed ran fwyaf difreintiedig o gymdeithas na'r rhai sy'n byw yn y degfed lleiaf difreintiedig.⁶

Cyflyrau MSKⁱⁱⁱ

Canran sy'n adrodd am gyflwr MSK hirdymor^{7,8,10}



Mae pobl sy'n byw yn y pumed mwyaf difreintiedig o gymdeithas yn fwy tebygol o adrodd am arthritis neu gyflwr MSK hirdymoriv o gymharu â'r rhai sy'n byw yn y pumed lleiaf difreintiedig.

iii Wedi'i ddiffinio fel cyflwr neu salwch sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara blwyddyn neu fwy.

iv Nid oes data ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon a Chymru felly nid yw wedi'i gynnwys yn y ffeithlun.

ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD

Poen cronig

Mae poen cronig yn gysylltiedig ag amddifadedd. Mae pedwar o bob deg o bobl (41%) sy'n byw yn y pumed mwyaf difreintiedig o gymdeithas yn Lloegr yn adrodd am boen cronig o gymharu â 3 o bob 10 (30%) yn y cwntel lleiaf difreintiedig.¹²

41% Mae 41% o'r pumed mwyaf difreintiedig yn adrodd am boen cronig

30% Mae 30% o'r cwntel lleiaf difreintiedig yn adrodd am boen cronig



4 o bob 10 o bobl



3 o bob 10 o bobl

Gorbwysau ac anweithgarwch corfforol

Arthritis


Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu 1% am bob cynnydd o 1kg/m² mewn BMI (Mynegai Màs y Corff – amcangyfrif o fraster y corff yn seiliedig ar bwysau a thaldr)¹³. Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu 3% am bob cynnydd o 5cm yng nghylchedd canol y bol.¹³

Mae pobl sy'n profi mwy o amddifadedd yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew na'r rhai sy'n profi llai o amddifadedd.¹⁴

Mae gan ardaloedd difreintiedig cyffredinrwydd uwch osteoarthritis. Mae cyffredinrwydd uwch o ordewdra yn yr ardaloedd hyn yn cyfrif am 50% o'r risg ychwanegol ar gyfer osteoarthritis y pen-glin.¹⁵

I ddysgu mwy am anghydraddoldebau iechyd a phoen cronig gallwch ddarllen ein hadroddiad, **Chronic Pain in England: Unseen, Unequal, Unfair**

Canran yr oedolion (18+) sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sydd dros bwysau neu'n ordew



Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu

1% AM BOB 1KG/M²

o gynnydd mewn BMI

Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu

3% AM BOB 5CM

o gynnydd yng nghylchedd canol y bol

ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD

Ethnigrwydd


Mae cyflyrau MSK a phoen cronig yn effeithio'n anghyfartal ar rai grwpiau ethnig lleiafrifol

Yn Lloegr, grwpiau ethnig Pacistanaidd (20.8%), Du Caribiaidd (18.7%) a Gwyn Prydeinig (16.8%) sydd fwyaf tebygol o adrodd am gyflwr MSK parhaol.¹⁶

Mae adroddiad **The Musculoskeletal health: trends, risk factors and disparities in England** yn darparu data i ehangu ymwybyddiaeth o wahaniaethau mewn iechyd MSK ar lefel genedlaethol. I gael rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn [cliciwch yma](#).




Nifer yr achosion o gyflyrau cyhyrsgerberbydol hirdymor yn ôl ethnigrwydd, 2012 i 2018¹⁶



ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD

Poen cronig

Mae nifer yr achosion o boen cronig yn amrywio rhwng rhai grwpiau ethnig.¹²



Canfu un astudiaeth yn Lloegr fod gan 44% o bobl Ddu boen cronig, o gymharu â 34% o bobl wyn, 35% o bobl Asiaidd, 34% o bobl o ethnigrwydd cymysg a 26% o bobl o ethnigrwydd eraill.¹² Canfu astudiaeth arall yn Lloegr mai pobl o gefndiroedd ethnig Pacistanaidd a Bangladeshaidd sydd â'r cyfraddau uchaf o boen cronig o'r holl grwpiau ethnig.¹⁷


I ddysgu mwy am anghydraddoldebau iechyd a phoen cronig gallwch ddarllen ein hadroddiad, **Chronic Pain in England: Unseen, Unequal, Unfair**

Oedran

Arthritis

Mae cyffredinrwydd osteoarthritis yn cynyddu wrth i oedran gynyddu.

Nifer yr achosion o OA mewn unrhyw gymal ymhlith dynion a menywod (%)¹⁸



Mae'r rhan fwyaf o bobl rhwng 46 a 70 oed pan fyddant yn cael diagnosis o arthritis gwynegol.¹⁹

Cyflyrau MSK

Mae cyflyrau MSK yn effeithio ar bobl o bob oed ond yn dod yn fwy cyffredin wrth i bobl fynd yn hŷn.


Mae **2.8 MILIWN** o bobl dan 35 oed (11%) yn byw gyda chyflwr MSK.⁵

Mae **10.2 MILIWN** o bobl 35-64 oed (40%) yn byw gyda chyflwr MSK.⁵

Mae **7.4 MILIWN** o bobl 65 oed a throsodd (61%) yn byw gyda chyflwr MSK.⁵

ANGHYDRADDOLDEBAU IECHYD

Canran y bobl sydd â chyflwr MSK⁵



Gwahaniaethau rhwng Dynion a Menywod

Mae gan arthrits a chyflyrau MSK cyffredinrwydd gwahanol rhwng dynion a menywod.

Arthrits

Mae menywod

2-3x

yn fwy tebygol o ddatblygu arthrits gwynegol na dynion.²⁰



Mae spondyloarthrits echelinol neu spondyloarthrits echelinol radiograffeg yn cael ei ddiagnosisio'n amlach ymhlith dynion o gymharu â menywod (3:1)²¹



Mae gan spondyloarthrits echelinol nad yw'n radiograffig ddsbarthiad cyfartal rhwng dynion a menywod.²¹

Osteoarthritis yn y DU¹⁸



Cyflyrau MSK



Poen cronig



Y ganran sydd â phoen cronig yn Lloegr.¹²

Y ganran sydd â phoen cronig sy'n cael effaith sylweddol.¹²

02

YR
UNIGOLYN

EFFAITH ARTHRITIS A CHYFLYRAU MSK

Ansawdd bywyd

Gellir mesur ansawdd bywyd gan ddefnyddio sgôr Ansawdd Bywyd hunan-gofnodedig, sgôr o 1=iechyd perffaith. Mae bodolaeth unrhyw gyflwr hirdymor yn gysylltiedig â gostyngiad mewn ansawdd bywyd, (sgôr Ansawdd Bywyd hunan-gofnodedig o 0.79), ond os yw arthritis neu boen cefn yn bresennol fel un o'r cyflyrau hirdymor mae'r gostyngiad yn fwy. (sgôr Ansawdd Bywyd hunan-gofnodedig o 0.71).²²

Mae cael arthritis neu gyflwr MSK arall yn un o'r cyfranwyr mwyaf at flynyddoedd o fyw ag anabledd (years lived with disability/YLDs).

Mae YLDs yn fesur sy'n cyfuno nifer yr achosion o glefyd â sgôr sy'n nodi i ba raddau mae'r clefyd hwnnw yn anblu.²³

Poen gwaelod y cefn yw prif achos YLD.⁵



21%

Mae 21% o YLDs yn y DU yn cael eu cyfrif gan gyflyrau MSK.⁵

Mae achosion YLDs yn y DU fel a ganlyn:⁵

1. Poen gwaelod y cefn

2. Diabetes

3. Anhwylderau iselder

4. Anhwylderau cur pen

5. Cwmpiadau

6. Poen gwddf

7. Colli clyw sy'n gysylltiedig ag oedran

8. Osteoarthritis

9. Cyflyrau MSK eraill

10. Gynaecolegol

Mae poen gwaelod y cefn wrth wraidd

960,132



YLDs⁵

Mae poen gwddf wrth wraidd

370,075



YLDs⁵

Mae poen gwddf wrth wraidd

314,504



YLDs⁵

Mae arthritis gwynegol wrth wraidd

50,322



YLDs⁵

Mae poen gowt wrth wraidd

21,760




YLDs⁵

EFFAITH ARTHRITIS A CHYFLYRAU MSK

Effaith ar weithgareddau dyddiol

Cynhaliodd Versus Arthritis arolwg o bobl â chyflyrau MSK i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ffactorau sy'n effeithio ar fywydau pobl â chyflyrau MSK²⁴



Dywedodd

1/2

o ymatebwyr

na allant wneud unrhyw beth eu hunain i leihau effaith eu cyflwr ar eu bywydau.²⁴

Gwaith

Gall arthritis a chyflyrau MSK hefyd effeithio ar allu unigolyn i weithio.

Mae pobl ag arthritis **20% YN LLAI TEBYGOL** o fod mewn gwaith na rhywun heb arthritis.²⁵

Roedd arthritis yn gysylltiedig â mwy o siawns o golli swyddi yn ystod pandemig Covid-19. Pan ddadansoddodd ymchwilwyr ddata ynghylch pobl a oedd â swydd rhwng Ionawr a Chwefror 2020, canfuwyd erbyn Medi 2021 bod pobl ag arthritis **3.4 Pwynt Canran** yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth o hyd o gymharu â rhywun heb gyflwr iechyd²⁶



1 O BOB 3

gweithiwr presennol yn y DU gyflwr iechyd hirdymor.²⁷



1 O BOB 10

presennol yn y DU gyflwr iechyd hirdymor.²⁷



1 O BOB 3

gweithiwr â chyflwr hirdymor eb drafod ei gyflwr MSK gyda'i gyflogwr.²⁸

Canran mewn cyflogaeth²⁹

Cyflwr MSK

62.4%

Dim cyflwr hirdymor

82.1%

Canran sy'n economaidd anweithgar²⁹

Cyflwr MSK

34.9%

Dim cyflwr hirdymor

15.2%

EFFAITH ARTHRITIS A CHYFLYRAU MSK


Collwyd

23.4M

o ddiwrnodau gwaith yn 2022 oherwydd cyflyrau MSK.³⁰

Cyflyrau MSK yw'r 3ydd rheswm mwyaf cyffredin dros gollu diwrnodau gwaith, dim ond 'Arall' (gan gynnwys COVID-19) a 'Mân Salwch' sy'n fwy cyffredin.³⁰

Canran yr achosion o absenoldeb salwch³⁰



Roedd 14% o absenoldebau salwch

o fewn y GIG ym mis Awst 2023 oherwydd problemau cefn a chyflyrau MSK eraill.³¹

= 300,162 o ddiwrnodau gwaith cyfwerth ag amser llawn wedi'u colli³¹

DROS HANNER 53%

Cyfran y bobl a holwyd â chyflyrau MSK yn dweud bod eu symptomau yn cael effaith negyddol ar waith.²⁴

1 O BOB 10 5,660

Nifer y bobl a gafodd gymorth gan gynllun Mynediad at Waith y DU yn 2022-23 a oedd â chyflwr MSK.³²

1 O BOB 8 13%

Mae gan hawlwr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ym Mhrydain Fawr ym mis Mai 2022 afiechyd y system MSK neu feinwe gyswllt fel eu prif gyflwr.³³

Mae cyflyrau MSK yn parhau fel **YR AIL DIAGNOSI MUYAF CYFFREDIN** ar nodiadau ffitrwydd a ysgrifennwyd gan feddygon teulu yn Lloegr, ar ôl cyflyrau iechyd meddwl, rhwng Medi 2022 a Medi 2023.³⁴

Roedd **17%** o nodiadau ffitrwydd a roddwyd i gleifion gan feddygon teulu n Lloegr ar gyfer cyflyrau MSK rhwng Medi 2022 a Medi 2023.³⁴


DROS HANNER 53%

Nifer y nodiadau ffitrwydd a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau cyflyrau MSK yn para 5 wythnos neu fwy.³⁴

ARTHRITIS, CYFLYRAU MSK A CHYFLYRAU HIRDYMOR LLUOSOG

Mae cyflyrau hirdymor lluosog yn cyfeirio at achosion pan fo unigolyn sengl yn byw gyda dau neu fwy o gyflyrau hirdymor (amforbidrwydd).

Mae **10 BOB 4** oedolyn yn y DU yn byw gyda dau gyflwr hirdymor neu fwy.^{35,36}



Disgwylir y bydd nifer yr achosion o bobl â 4 neu fwy o gyflyrau cronig yn y DU bron i ddyblu o:

9.8% YN 2018
17% YN 2035³⁷

Mae cyflyrau hirdymor lluosog yn gyffredin ymhlith pobl sydd ag arthritis.

Mae pobl ag OA:

1.2x

yn fwy tebygol o fod â chyflwr hirdymor ychwanegol na phobl heb OA.³⁸

Mae pobl ag OA:

3x

yn fwy tebygol o gael clefyd isgemia'r galon neu fethiant y galon na'r rhai heb OA, mae'n debyg oherwydd y ffactorau risg sylfaenol a rennir ar gyfer y cyflyrau hyn.³⁹

Mae gan bobl ag OA risg

61%

yn uwch o gael diabetes mellitus na'r rhai heb arthritis.³⁹

Mae pobl ag OA:

2.5x

yn fwy tebygol o fod â thri chyflwr ychwanegol neu fwy na phobl heb OA.³⁸

20%

Mae cyffredinrwydd iselder ymhlith y rhai ag arthritis gwynegol 2-3 gwaith yn uwch na'r rhai heb y cyflwr.⁴⁰

MAE TUA 20% O BOBL AG OA YN PROFI SYMPTOMAU ISELDER A PHRYDER.⁴¹

ARTHRITIS, CYFLYRAU MSK A CHYFLYRAU HIRDYMOR LLUOSOG

Mae cyflyrau MSK yn gyffredin iawn ymhlith pobl â chyflyrau hirdymor lluosog.

Mae cyffredinrwydd cyflyrau hirdymor lluosog yn cynyddu gydag oedran cynyddol.

PEDWAR O BOB DEG

Nifer y bobl sydd â chyflyrau hirdymor lluosog yn byw gyda chyflwr iechyd corfforol a meddyliol.^{35,36}





UN O BOB PUMP

Nifer yr oedolion (21%) 46-48 oed ym Mhrydain sydd â chyflyrau hirdymor lluosog problemau cefn rheolaidd.⁴²

UN O BOB WYTH

Nifer y bobl (13.4%) yn Lloegr sy'n dweud eu bod yn byw gydag o leiaf dau gyflwr hirdymor, ac mae un ohonynt yn gysylltiedig ag MSK.⁶



UN O BOB TRI

Nifer yr oedolion (34%) sydd 46-68 oed yn byw gyda chyflyrau hirdymor lluosog ym Mhrydain.⁴²



Mae **CHWECH O BOB DEG O BOBL** 65-84 oed gyflyrau hirdymor lluosog.^{35,36}



Mae **WYTH O BOB DEG O BOBL** 85 oed neu hŷn gyflyrau hirdymor lluosog.^{35,36}

Mae aml-forbidrwydd yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol

Mae pobl sy'n profi mwy o amddifadedd yn llawer mwy tebygol o adrodd am ddau gyflwr neu fwy³⁵ a gallant ddisgwyl eu datblygu **10-15 MLYNEDD YNGHYNT** na'r rhai sy'n profi llai o amddifadedd.³⁶

Mae oedolion o ddsbarth cymdeithasol mwy difreintiedig yn wynebu hyd at **43% YN FWY O RISG** o gael cyflyrau hirdymor lluosog yn ystod canol oes (46-48 oed) o gymharu â'r rheini o ddsbarth cymdeithasol llai difreintiedig.⁴²


ARTHRITIS, CYFLYRAU MSK AC IECHYD EHangach

Mae pobl ag arthritis, cyflwr MSK, neu boen cronig yn fwy tebygol o gael problemau iechyd ehangach fel iechyd meddwl gwael, bod dros bwysau ac anweithgarwch corfforol. Mae'r perthnasoedd yma yn gymhleth. Mae rhai oherwydd ffactorau risg a rennir megis amddifadedd. Mae rhai ffactorau risg yn achosol, megis pwysau corff ynyddol yn cyfrannu'n uniongyrchol at osteoarthritis pen-glin, neu bobl sy'n cael trafferth i fod yn actif yn gorfforol oherwydd arthritis poenus neu gyflyrau cyhyrsgerbydol. Gall y perthnasoedd hyn hefyd fod yn ddwyochrog, gan gynnwys lle mae poen cronig yn gwaethyguiechyd meddwl, ac iechyd meddwl gwael yn gwaethygu poen cronig.

Dros bwysau a gordewdra

Gall cael pwysau corff dros bwysau neu ordewdra gynyddu risg pobl o ddatblygu cyflyrau arthritis fel osteoarthritis a gowt.

Cyffredinrwydd o fod dros bwysau a gordewdra (%)^{10,44,45}



6 O BOB 10 OEDOLYN



**NIFER YN Y DU SYDD
Â PHWYSAU CORFF
DROS BWYSAU NEU
ORDEWDRA.**^{43,44,4}

Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu:

3% AM BOB 5CM
CYNNYDD YNG NGHYLCHEDD CANOL Y BOL¹³



7 O BOB 10



Mae gan (70%) oedolion 16+ sydd â chyflwr MSK hirdymor â phwysau corff dros bwysau neu ordewdrai.^{10,44,45}

Mae'r risg o ddatblygu osteoarthritis yn cynyddu:


**1% AM BOB
1KG/M²
O GYNNYDD MEWN BMI¹³**

1 O BOB 4 O BOBL



**Y NIFER SYDD AG
ARTHRITIS SORIATIG
SYDD Â GORDEWDRA⁴⁶**

DROS HANNER




54%

Nifer yr oedolion yn Lloegr â lefelau uchel o ordewdra sy'n adrodd am boen cronig.¹²

ARTHRITIS, CYFLYRAU MSK AC IECHYD EHangach

BMI cyfartalog cleifion gosod clun a phen-glin newydd^{47,50}



Mae gordewdra yn niweidio cymalau sy'n cynnal pwysau yn uniongyrchol, megis pengliniau a chluniau, oherwydd y llwythi annormal o uchel y mae'n rhaid iddynt eu carioy.⁴⁸ Mewn bron i chwarter (24.6%) o bobl â phoen pen-glin newydd, gellir priodoli'r symptomau i fod â phwysau corff rhy drwm neu ordewdra.⁴⁹

Mae pobl sydd â gordewdra:

1.5-2.5x

gwaith yn fwy tebygol o gael poen cefn na rhywun â BMI yn yr ystod 'iach'.⁵¹

2x

yn fwy tebygol na rhywun â BMI yn yr ystod 'iach' o ddatblygu gowt ac yn fwy tebygol o'i ddatblygu yn iau.⁵²




Bod â risg sylweddol uwch o ddatblygu arthritis gwynegol.⁵³

Anweithgarwch corfforol

Gall bod yn gorfforol anweithgar, a ddiffinnir fel gwneud llai na 30 munud o weithgarwch corfforol gweddol ddwys yr wythnos⁵⁴, gynyddu risg pobl o ddatblygu cyflyrau MSK penodol.

MAE TUA 1 O BOB 4 O BOBL yn y DU yn gorfforol anweithgar.^{10,44,45,55}

Cyffredinrwydd anweithgarwch^{10,44,45}



YN AROLWG IECHYD GOGLEDD IWERDDON

adroddodd

20%

o ymatebwr 0 diwrnod pan oeddent wedi cwblhau o leiaf 30 munud o weithgarwch corfforol (anweithgar).⁵⁵



Mae pobl sydd â chyflwr MSK hirdymor tua **dwywaith yn fwy tebygol** adrodd eu bod yn gorfforol anweithgar na'r rhai heb gyflwr.^{10,44,45}

Mae **60% O BOBL** ag arthritis gwynegol yn gorfforol anweithgar.⁵⁶

Mae gan **45% O BOBL** sy'n gorfforol anweithgar yn Lloegr boen cronig.¹²

ARTHRITIS, CYFLYRAU MSK AC IECHYD EHANGACH

Mae gweithgaredd corfforol rheolaidd yn lleihau risg pobl o'r canlynol:



Poen osteoarthritis clun a phen-glin gan⁵⁷

6%



Poen yn y cymalau a'r cefn gan⁵⁸

25%



Cwmpo gan⁶¹

76%



Toriadau clun gan⁶⁰

24%



Iselder gan⁵⁹

25%

Mae'r rhai sy'n cael trafferth gyda'u cyflyrau MSK yn llai tebygol o fod yn gorfforol weithgar ond nhw sydd â'r mwyaf i'w ennill, os cynigir y cymorth cywir iddynt.

6 O BOB 10

Nifer y bobl (60%) a holwyd â chyflyrau MSK a ddywedodd eu bod yn defnyddio gweithgaredd corfforol fel ffordd o reoli eu symptomau.²⁴

7 O BOB 10

Nifer y bobl (70%) a holwyd â chyflyrau MSK a ddywedodd yr hoffent fod yn fwy actif.⁶²

4 O BOB 10

Nifer y bobl (36%) a holwyd â chyflyrau MSK a oedd yn actif o leiaf unwaith yr wythnos a ddywedodd eu bod yn gwneud ymarfer corff oherwydd ei fod yn eu helpu gyda'u poen.²⁴

8 O BOB 10

Nifer y bobl (77%) a holwyd â chyflyrau MSK a ddywedodd eu bod eisiau cymorth ymarferol i'w helpu i fod yn fwy weithgar yn gorfforol.⁶²

DROS HANNER

Nifer y bobl (56%) a holwyd â chyflyrau MSK a ddywedodd fod eu poen, blinder a dehurwydd yn rhwystro sylweddol ar eu gallu i fod yn gorfforol weithgar.

Iechyd meddwl

Mae pobl ag arthritis, cyflyrau MSK neu boen cronig yn fwy tebygol o fod â chyflyrau iechyd meddwl.

2 O BOB 10



20%

Nifer y bobl ag osteoarthritis sy'n profi symptomau iselder a phryder.⁴¹

TRAEAN



33%

Nifer y bobl ag arthritis gwynegol sydd â phroblemau iechyd meddwl fel gorbryder, iselder.⁶³

1 O BOB 5



20%

Nifer y bobl ag arthritis soriatig sydd ag iselder.⁶⁴

Mae'r tebygolrwydd o gael cyflwr iechyd meddwl hunan-gofnodedig yn

1.4x

mor uchel mewn pobl â chyflwr MSK, o gymharu â phobl heb gyflwr MSK.⁶

Mae iselder yn

4x

n fwy cyffredin ymhlith pobl mewn poen parhaus o'i gymharu â'r rhai heb boen.⁶⁵

03


DARPARIAETH

MYNEDIAD AT OFAL

Gosod cymalau newydd ac amserau aros

Triniaeth bwysig ar gyfer osteoarthritis, pan nad yw ymyriadau eraill llai ymyrrol wedi gweithio, yw llawdriniaeth i osod cymalau newydd. Fel arfer bydd hyn yn broses ailosod clun neu ben-glin.

Nifer y llawdriniaethau gosod clun a phen-glin newydd a gynhelir bob blwyddyn o 2013-2022⁵⁰



Triniaeth clun




Triniaeth pen-glin

Cynyddodd nifer y llawdriniaethau gosod cymalau newydd yn raddol rhwng 2013 a 2020, lle cynhaliwyd tua hanner y nifer.⁵⁰

Oherwydd pandemig COVID-19 bu oedi gyda'r llawdriniaethau hyn ac felly tyfodd rhestrau aros ar gyfer y llawdriniaethau hyn ar draws pob un o bedair gwlad y DU.^{66,67,68,69}

Nifer y bobl yn aros am driniaeth yn Lloegr⁶⁶



Yn Lloegr mae'r rhestr aros am driniaeth Trawma ac Orthopedig yn cynnwys **857,307** o bobl, gyda **6%** sydd wedi aros dros flwyddyn am driniaeth (data Tachwedd 2023).⁶⁶ Mae **264,146** (31%) o bobl ar y rhestr yn aros gyda phenderfyniad i gael eu derbyn wely ysbyty, mae **13%** o'r bobl hyn wedi aros dros flwyddyn (data Tachwedd 2023).⁶⁶ Ar anterth y rhestr aros, ym mis Mawrth 2021 yn Lloegr, roedd **17%** o'r rhai ar y rhestr wedi bod yn aros am fwy na blwyddyn.⁶⁶

Yng Nghymru mae **98,396** o bobl yn aros am driniaeth Trawma ac Orthopedig gyda **30%** yn aros dros flwyddyn a **7%** yn aros dros ddwy flynedd (data Tachwedd 2023).⁷⁰

MYNEDIAD AT OFAL

Yn yr Alban mae **99,818** o bobl yn aros am driniaeth cleifion mewnol ac allanol Trawma ac Orthopedig gyda **14%** yn aros am flwyddyn (data Medi 2023).⁷¹

Yng Ngogledd Iwerddon mae **46,645** o bobl yn aros am driniaeth cleifion mewnol ac allanol gyda **50%** yn aros dros flwyddyn (data Medi 2023).⁷²

Gosod cymalau newydd ac anghydraddoldebau iechyd

Mae pobl sy'n profi'r amddifadedd mwyaf ar draws Cymru a Lloegr yn fwy tebygol o fod angen clun newydd na'r rhai sy'n profi llai o amddifadedd.⁷³

Ac eto mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn llai tebygol o gael clun newydd wedi'i ariannu gan y GIG na'r rhai mewn ardaloedd mwy cefnog.⁷³

Amseroedd aros arthrits llidiol cenedlaethol

Daw'r data hyn o'r Archwiliad Cenedlaethol Arthrits Llidiol Cynnar (NEIAA) sy'n casglu data o Gymru a Lloegr.⁷⁴

56%

Nifer y bobl yr amheuir bod ganddynt arthrits llidiol sy'n cael eu hatgyfeirio o fewn y targed o 3 diwrnod gwaith.⁷⁴

39%

Nifer y bobl yr amheuir bod ganddynt arthrits llidiol a welir o fewn 3 wythnos i glinig rhiwmatoleg gael atgyfeiriad.⁷⁴

56%

Nifer y bobl ag arthrits llidiol awtoimiwn wedi'i gadarnhau sy'n cael triniaeth o fewn 6 wythnos i dderbyn atgyfeiriad.⁷⁴

Ar gyfer holl fetrigau NEIAA mae amrywiad daearyddol sylweddol.⁷⁴

YNG NGHANOLBARTH LLOEGR MAE

51%

o bobl yr amheuir bod ganddynt arthrits llidiol yn cael eu hatgyfeirio o fewn y targed o 3 diwrnod gwaith o gymharu â...

LLUNDAIN LLE MAE

62%

o bobl yr amheuir bod ganddynt arthrits llidiol yn cael eu hatgyfeirio o fewn y targed o 3 diwrnod gwaith.⁷⁴

YNG NGHYMRO MAE

25.4%

o bobl ag arthrits llidiol wedi'i gadarnhau yn cael eu gweld o fewn 3 wythnos i gael eu hatgyfeirio, o gymharu â...

GOGLEDD-DDWYRAIN LLOEGR A SWYDD EFROG LLE MAE

50.9%

o bobl ag arthrits llidiol wedi'i gadarnhau yn cael eu gweld o fewn 3 wythnos i gael eu hatgyfeirio.⁷⁴

YN NWYRAIN LLOEGR, MAE

40.6%

o bobl ag arthrits llidiol awtoimiwn wedi'i gadarnhau yn dechrau therapi cDMARD o fewn 6 wythnos i gael eu hatgyfeirio, o gymharu â...

DE-ORLLEWIN LLOEGR LLE MAE

79.2%

o bobl ag arthrits llidiol awtoimiwn wedi'i gadarnhau yn cael eu gweld o fewn 6 wythnos i gael eu hatgyfeirio.⁷⁴

04

**EFFAITH
CYMDEITHASOL**

EFFAITH AR OFAL IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, A'R ECONOMI

Gwasanaethau Iechyd a Gofal

Mae'r rhai sydd ag arthrits a chyflyrau MSK yn fwy tebygol o gysylltu a defnyddio gofal iechyd sylfaenol, gofal iechyd eilaidd, a gofal iechyd cymunedol fel ffisiotherapi.

Roedd cyflyrau MSK yn cyfrif am:

1.06M O DDERBYNIADAU I'R YSBYTY

8.3%

gyfanswm nifer y derbyniadau i'r ysbty yn Lloegr yn 2021-22.⁷⁵

Bob blwyddyn bydd:

1 O BOB 5



oedolyn yn ymgynghori â'u meddyg teulu am gyflwr MSK.⁷⁶



1 O BOB 7



ymgyngoriad meddyg teulu.¹



2 O BOB 5



o bobl a holwyd yn gweld eu meddyg teulu fel y prif berson y maent yn cael cymorth ganddyt.²⁴



Mae pobl ag arthrits a chyflyrau MSK yn aml yn cymryd meddyginiaethau i helpu i reoli eu symptomau.

1 O BOB 2 47%



Nifer y bobl â chyflyrau MSK hirdymor yn Lloegr sy'n cymryd pump neu fwy o feddyginiaethau yn rheolaidd.⁷⁷

DROS 30M

Nifer y presgripsiynau a weinyddwyd ar gyfer cyflyrau MSK a chlefydau cymalau yn Lloegr 2022-2023.⁷⁸

Costiodd presgripsiynau ar gyfer cyflyrau MSK tua

£139M

Yn Lloegr 2022-2023.⁷⁸



Gwasanaethau cymdeithasol

Mae gan oedolion â phoen MSK cronig lefelau uchel o ddefnydd gofal cymdeithasol yn y DU.⁷⁹ Canfu un astudiaeth fod **DROS HANNER (54%)** 'r rhai â phoen cronig wedi derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ystod y mis diwethaf.⁷⁹

EFFAITH AR OFAL IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, A'R ECONOMI

Yr Economi

Mae afiechyd cyhyrysgerbydol yn arwain at gostau sylweddol i unigolion, cyflogwyr, y gwasanaeth iechyd, a'r economi ehangach.



Amcangyfrifwyd bod cost y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd osteoarthritis ac arthritis gwynegol yn **£2.58 BILLION IN 2017** gan godi i **£3.43 BILIWN ERBYN 2030**.⁸⁰



Amcangyfrifir mai cyfanswm costau spondyloarthrits echelinol sy'n gysylltiedig â gwaith oherwydd ymddeoliad cynnar, absenoldeb a phresenoldeb yw


£11,943 FESUL UNIGOLYN sydd â spondyloarthrits echelinol y flwyddyn.⁶⁷

Mae costau cyfun o fod heb waith ac absenoldeb oherwydd salwch yn y DU yn cyfateb i tua

£100 BILIWN Y LWYDDYN⁸³

^{vi} Dangosir data ar gyfer 2019-2020 yma i ddangos y cynnydd cyn y pandemig COVID-19.

Cyflyrau MSK oedd yn cyfrif am y trydydd maes mwyaf o wariant rhaglen y GIG, sef £4.7 biliwn yn 2013-14.⁸¹ Roedd hyn yn 3.5% o gyfanswm y gwariant yn 2013-2014. Os yw'r gyfran wedi aros yr un fath – bydd cyflyrau MSK wedi cyfrif am wariant o £5.5 biliwn yn 2019-2020^{vi} ac amcangyfrif o £6.3 biliwn yn 2022-2023.^{82,81}



Amcangyfrifir bod trin y ddau fath mwyaf cyffredin o arthritis (osteoarthritis ac arthritis gwynegol) wedi costio **£10.2 BILIWN I'R ECONOMI MEWN COSTAU UNIONGYRCHOL* I'R GIG** a'r system gofal iechyd ehangach yn 2017.

Gyda'i gilydd bydd y gost gofal iechyd yn cyrraedd **£118.6 BILIWNDROS** y degawd nesaf.⁸⁰

05

**CYFLYRAU LLE
MAI ARTHRITIS
YR'R PRIF
SYMPTOM**

OSTEOARTHRITIS



“

Yr hyn nad ydw i'n ei anghofio yw sut brofiad oedd hi cyn i mi gael cluniau newydd, a oedd yn boen annioddefol. Ni allwn godi o'r gwely na gwisgo yn y bore. Doeddwn i ddim yn gallu rhoi fy sanau ymlaen, roeddwn i'n teimlo'n ddiwerth, roeddwn i'n teimlo baich ar fy merch.


Pan 'dych chi mewn cymaint o boen ac yn cymryd cymaint o gyffuriau lladd poen, ni allwch feddwl yn syth. Rydych chi'n mynd o un apwyntiad ysbyty i apwyntiad arall, yn gwneud profion gwaed a sganiau. Ro'n i 'di blino'n lân o hyd.

”


Brenda

OSTEOARTHRITIS

Mae osteoarthritis (OA) yn digwydd pan na all y corff gynnal a thrwsio un cymal neu fwy mwyach - sy'n effeithio'n gyffredin ar y dwylo, y cluniau a'r pengliniau. Mae'r cartilag yn mynd yn denau ac yn anwastad, gan atal y cymal rhag symud yn hawdd. Gall ymdrechion y corff i atgyweirio'r newidiadau hyn arwain at boen, anystwythder a chwyddo.




Nifer y bobl ag osteoarthritis clun a phen-glin yn y DU^{3,v}



Bob blwyddyn mae tua
350,000
yn cael diagnosis o OA¹⁸

Mae astudiaethau'n awgrymu mai oedran canolrifol dechrau symptomau OA yw tua 55 oed, er y bydd difrifoldeb y symptomau'n amrywio.^{84,85}

% Cyffredinrwydd OA



Mae gan bron i hanner (**49% O FENYWOD** a **42% O DDYNIION**) o bobl 75 oed neu hŷn OA.¹

^v Oherwydd nad oes data ar gael, rydym wedi defnyddio cyffredinrwydd yn Lloegr i gynhyrchu'r cyfansymiau ar gyfer Gogledd Iwerddon. Defnyddiwyd yr ystadegyn hwn yn ofalus.

Ffactorau Risg

- Oed yn codi** – mae OA yn anghyffredin ymhlith pobl dan 45 oed.
- Dynion a menywod** – Ar gyfer y rhan fwyaf o gymalau, mae OA yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol mewn menywod.
- Etifeddiaeth** – Ffactorau genetig a genomig etifeddol.
- Llwytho annormal ar gymalau** – Oherwydd annormaleddau o ran siâp cymalau, neu dros bwysau/gordewdra.
- Arthritis lliidiol** - Yn arwain at gollu cartilag.

OA a chyflyrau hirdymor eraill

Mae pobl ag OA bron i **3 GWAITH** yn fwy tebygol hefyd o gael clefyd isgemia'r galon neu fethiant y galon na'r rhai heb OA, mae'n debyg oherwydd ffactorau risg sylfaenol a rennir ar gyfer y cyflyrau hyn.³⁹

Iechyd ehangach

Mae tua **20%** o bobl ag OA yn profi symptomau iselder a phryder.⁴¹

GOWT



“

Dechreuodd fy gowt pan oeddwn ond blwyddyn i mewn i'm tridegau a'r unig ffordd y gallwn i fynd o gwmpas oedd trwy gropian ar fy nwylo a'm pengliniau. Pan oedd ar ei waethaf ni allwn gerdded am dri mis, ni allwn yrru, ni allwn hyd yn oed chwarae gyda fy merch.

”

Neil

GOWT

Mae gout yn fath o arthritid llidiol lle mae'r system imiwneidd, sef system hunan-amddiffyn naturiol y corff, yn ymosod ar y cymalau a'r meinweoedd cyfagos lle mae crisialau wrad wedi ffurfio, gan achosi episodau o lid difrifol, anystwythder, poen a difrod. Mae crisialau wrad yn ffurfio yn y cymalau pan fo lefel wrad (asid wrig) y corff yn gyson rhy uchel.

Cyffredinrwydd a mynychder








1.6M

Nifer y bobl (1 o bob 50) sydd wedi cofnodi diagnosis o gout.⁸⁶


66,000

Nifer y bobl sy'n cael diagnosis o gout o'r newydd bob blwyddyn.⁸⁶

Ffactorau Risg

-  **Oedran** - Mae'r risg yn cynyddu gydag oedran.
-  **Dynion a menywod** - mae gout yn fwy cyffredin mewn dynion.
-  **Pwysau** - Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o gout.
-  **Etifeddiaeth** - Ffactorau genetig a genomig etifeddol.
-  **Cymeriant bwyd a diod** - Mae rhai bwydydd a diodydd yn codi lefelau wrad.
-  **Meddyginiaethau** - Sy'n arwain at lefelau wrad uwch.
-  **Cyflyrau tymor hir** - clefyd yr arenau.

Gout a chyflyrau hirdymor eraill




Mae pobl â gout yn wynebu risg


29%

YN UWCH

o gael clefyd cronig yn yr arenau na phobl heb gout.¹⁸⁰



Mae tystiolaeth ddiweddar hefyd wedi dangos bod **cyfnodau o gout yn gysylltiedig â chynnydd mewn digwyddiadau cardiofasgwlaidd yn y 4 mis yn dilyn y cyfnod o fflamychiad.**¹⁷⁶



ARTHRITIS GWYNEGOL



Cefais ddiagnosis o arthritid gwynegol yn 21 oed. Roeddwn yn fy nhrydedd flwyddyn yn y brifysgol, yn astudio i fod yn athrawes ysgol gynradd. Yn sydyn, un bore, aeth fy bodiau'n boenus iawn. Yna aeth fy mhenelinoedd yn anystwyth ac yn ddolurus, ac ni allwn sythu fy mreichiau.

Ar hyn o bryd, rwy'n gwneud yn iawn. Mae dyddiau da a dyddiau drwg. Rwy'n dal i brofi poen bob dydd, ond rwy'n gwneud yn llawer gwell na phan gefais ddiagnosis am y tro cyntaf. Rwy'n cael llai o gyfnodau o fflamychiad, sy'n dangos bod y feddyginiaeth rwy'n ei defnyddio yn fy helpu'n fawr.

Keri



ARTHRITIS GWYNEGOL

Mae arthritid gwynegol (RA) yn fath o arthritid llidiol lle mae'r system imiwnedd yn ymosod ar gymalau'r corff, gan achosi llid, chwyddo, poen, anystwythder a niwed i'r cymalau.

Cyffredinrwydd a mynychder

450,000

Nifer yr oedolion sydd wedi cael diagnosis o RA.⁸⁷

27,000

Nifer yr oedolion sy'n cael diagnosis o RA o'r newydd bob blwyddyn.⁸⁷

RA a chyflyrau hirdymor eraill



Mae tua

30%

o bobl ag RA yn datblygu esgyrn gwany yn sgil osteoporosis.¹⁶⁸



Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd **1 O BOB 10** o bobl ag arthritid gwynegol yn cael diagnosis o glefyd yr ysgyfaint rhyng-raniadol dros oes eu clefyd, gan eu rhoi mewnmy o berygl o farwolaeth gynnar.¹⁸¹

Iechyd ehangach

60%

Canran y bobl ag RA sy'n gorfforol anweithgar.⁵⁶

Mae gan tua

1/3



o bobl ag RA broblemau iechyd meddwl fel gorbryder, iselder.⁶³

Gwaith



Mae tua

1/3

o bobl ag RA yn rhoi'r gorau i weithio o fewn 5 mlynedd i ddiagnosis.¹⁶⁹



Ffactorau Risg



Oedran - Mae'r rhan fwyaf o bobl rhwng 46 a 70 oed pan gânt ddiagnosis o arthritid gwynegol.¹⁹



Dynion a menywod - mae RA 2-3 gwaith yn fwy cyffredin ymhlith menywod na dynion.



Pwysau - Mae bod dros bwysau yn glinigol neu fod yn ordew yn cynyddu'r risg.⁸⁹



Etifeddiaeth - Ffactorau genetig, genomig ac epigenetig a etifeddwyd.



Mircrobiomau - Newidiadau yn y microbiome.^{90,91}



Ysmegu tybaco - Yn cynyddu risg, yn gwaethygu afiechyd, ac yn gwanhau ymateb i driniaeth.⁸⁸

ARTHRITIS SORIATIC



Ar ôl fy niagnosis, datblygodd fy arthrits yn eithaf cyflym dros y 10 mlynedd nesaf. Roedd fy nghefn wedi asio'n naturiol gyda'r arthrits ac roedd spondylitis wedi datblygu. Ymddeolais yn feddygol yn 2015 oherwydd hyn. I bob pwrpas, mae arthrits wedi costio fy ngyrfa i mi.

Sarah



ARTHRITIS SORIATIC

Mae arthrits soriatic (PsA) yn fath o arthrits llidiol sy'n gysylltiedig â soriatis lle mae'r system imiwnedd yn ymosod ar gymalau'r corff, gan achosi llid, chwyddo, anystwythder, poen a niwed i'r cymalau. Mae soriatis yn gyflwr hunanmiwn sy'n effeithio ar y croen ac mae gan tua **1 0 BOB 4** o bobl sydd â soriatis arthrits soriatic.⁹² Gall rhai pobl ddatblygu arthrits soriatic heb soriatis croen amlwg.

Cyffredinrwydd a mynychder

Amcangyfrifir bod gan

190,000

o oedolion arthrits soriatic.⁴

Pob blwyddyn, mae tua

8,430

o oedolion yn cael diagnosis arthrits soriatic o'r newydd.⁴

Ffactorau Risg




Oedran - Mae lefelau dechreuad uchel rhwng 30 a 50 oed.



Etifeddiaeth - Ffactor genetig, genomig ac epigenetig a etifeddwyd.⁹³

Arthrits soriatic a chyflyrau hirdymor eraill

1 0 BOB 5




Mae tua

19%

o bobl sydd ag arthrits soriatic glefyd cardiofasgwlaidd.⁴⁶


1 0 BOB 4



25%

Canran o bobl sydd â soriatis sydd ag arthrits soriatic.⁹²

1 0 BOB 5




Mae tua

20%

o bobl ag arthrits soriatic iselder.⁶⁴

1 0 BOB 4



25%

Canran y cleifion arthrits soriatic sydd â gordewdra.⁴⁶

Wider Health

SPONDYLOARTHRITIS ECHELINOL



Os ydych chi'n ifanc a mae gennych gyflwr fel spondyloarthritis echelinol, ni ddylech feddwl mai dyna ddiwedd y byd.

Y peth hanfodol yw bod â ffydd ynoch chi'ch hun, eich bod chi'n ddigon cryf i oresgyn y rhwystrau. Ond hefyd, byddwch yn realistig ac edrychwch ymlaen at yr hyn a allai fod yn anodd a chymerwch gamau i oresgyn neu osgoi problemau posibl.

Gall fod yn anodd, a bydd dyddiau pan na fyddwch chi eisiau codi o'r gwely, pan fydd popeth yn brifo, a mae pethau'n wael, ond mae'n rhaid i chi dorri trwyddo. Cyn gynted ag y byddwch chi ar eich traed ac yn symud, mae'r adrenalin yn cymryd drosodd ac mae'n mynd i gefn eich meddwl.

Ni allaf bwysleisio'n ddigon cryf y dylech ddefnyddio'r bobl o'ch cwmpas i gael cymorth. Gall gymryd llawer o gryfder i ofyn am help, ond mae'n bwysig gwneud.



Ben

SPONDYLOARTHRTIS ECHELINOL

Mae spondyloarthritid echelinol yn fath o arthritid lliidiol lle mae'r system imiwedd yn ymosod ar yr asgwrn cefn ac weithiau'r cymalau gan achosi llid, anystwythder, poen a difrod. Gall spondyloarthritid echelinol fod naill ai'n 'radiograffig (r-axSpA)' neu'n 'nad yw'n radiograffig (nr-axSpA)'. Mewn spondyloarthritid echelinol radiograffeg mae newidiadau gweladwy ar belydrau-X. Roedd spondyloarthritid echelinol radiograffeg yn cael ei alw'n flaenorol yn 'ankylosing spondylitis' (AS). Mewn spondyloarthritid echelinol nad yw'n radiograffig, nid oes unrhyw newidiadau i'w gweld ar belydrau X, ond gellir eu canfod ar sgan MRI.

Cyffredinrwydd a mynychder

Mae asesiad o gofnodion gofal iechyd yn awgrymu bod gan

60,000

o bobl ddiagnosis wedi'i gadarnhau o spondyloarthritid echelinol.⁸⁷ Fodd bynnag, mae codio mewn gofal sylfaenol ac eilaidd yn parhau i fod yn rhwystr i gael nifer gywir o ddiagnosisau ac yn wir mae un astudiaeth yn y DU yn awgrymu y gallai nifer y bobl â'r cyflwr fod tua

220,000¹⁸⁵

Gwaith

Mewn astudiaeth ar ddynion â spondyloarthritid echelinol radiograffeg (a elwid yn flaenorol yn ankylosing spondylitis), dywedodd **24%** eu bod wedi ymddeol yn gynnar oherwydd spondyloarthritid echelinol.^{97,98} Newidiodd **45%** i swydd llai heriol yn gorfforol oherwydd eu cyflwr.^{97,98}

Pob blwyddyn, mae tua

2,200

o oedolion yn cael diagnosis spondyloarthritid echelinol.⁸⁷

Sbondyloarthritid echelinol a chyflyrau hirdymor eraill

21%

Canran y bobl â spondyloarthritid echelinol a fydd â chyflwr llygaid poenus o'r enw uveitis a all achosi dallineb os na chaiff ei drin.⁹⁴

Mae gan tua

1 O BOB 5

o bobl â spondyloarthritid echelinol orbwysedd gwaed.⁹⁶




Mae gan tua


1 O BOB 10


o bobl â spondyloarthritid echelinol iselder.⁹⁶




Ffactorau Risg

 **Oedran** - Mae spondyloarthritid echelinol yn aml yn ymddangos yn yr arddegau hwyr neu'r ugeiniau.

 **Cyflyrau Cronig** - Mae spondyloarthritid echelinol yn fwy cyffredin mewn pobl â soriasis⁹⁴ neu glefyd llid y coluddyn.⁹⁵

 **Dynion a menywod** - Mae spondyloarthritid echelinol gyda newidiadau ar belydr-X/MRI yn cael ei ddiagnosisio'n amlach mewn dynion na menywod (3:1), ond mae gan spondyloarthritid echelinol gyda phelydr-X/MRI arferol ddisbarthiad rhyw cyfartal.²¹

 **Etifeddiaeth** - Ffactorau genetig etifeddol.⁹³

ARTHRITIS IDIOPATHIG IEUENCTID (JIA)



Dechreuais i chwyddo'n ddrwg iawn ychydig flynyddoedd cyn fy niagnosis yn 11 oed. Cefais lawer o lid, i'r pwynt lle na allwn fynd i'r ysgol na hyd yn oed gerdded. Roeddwn i mewn llawer o boen. Byddwn ar y sofffa neu'n methu codi o'r gwely. Nid oedd unrhyw ffordd y byddwn yn gallu cerdded o amgylch adeilad yr ysgol.

Y prif beth ar ôl y diagnosis oedd dweud wrth bobl fod gen i arthritus. Fe fydden nhw fel, "peidiwch â bod yn wirion, nid yw plant yn cael arthritus". Bydd pobl yn dal i ddweud wrthyf nawr, "Onid 'dych chi'n rhy ifanc i gael hynny?" Roeddwn yn falch o wybod beth oedd, ond roedd yn rhyfedd cael llawer o bobl nad oeddent yn credu bod gen i arthritus.



Becca

ARTHRITIS IDIOPATHIG IEUENCTID (JIA)

Mae JIA yn cyfeirio at grŵp o gyflyrau arthritid sy'n ymddangos cyn bod plant yn 16 oed. Er bod JIA yn ddiagnosis a roddir i blant o dan 16 oed, mae hwn yn parhau fel eich diagnosis pan fyddwch yn oedolyn. Mae JIA yn glefydau hunanmiwn lle mae'r system imiwnedd yn ymosod ar y corff. Mae yna wahanol fathau o JIA, ac mae difrifoldeb y cyflwr yn amrywio yn dibynnu ar y math.⁹⁹

Cyffredinrwydd a mynychder

Amcangyfrifir bod

10,000

o blant dan 16 oed wedi cael diagnosis o JIA.¹⁰⁰

TUA HANNER

Nifer y plant sydd wedi cael diagnosis o JIA a fydd yn cael eu rhyddhau o ofal (efallai oherwydd gwellhad di-gyffuriau).¹⁰¹

Ffactorau Risg



Oedran - Yr oedran dechreuad arferol yw rhwng 2 a 10 mlynedd.



Dynion a menywod - mae JIA yn fwy cyffredin ymhlith menywod.




Etifeddiaeth - Ffactorau genetig, genomig ac epigenetig a etifeddwyd.



Mircrobiomau - Newidiadau yn y microbiome.

JIA a chyflyrau hirdymor eraill



11-38% O BLANT

Canran y plant â JIA sydd ag uveitis sy'n gysylltiedig â JIA, cyflwr llygaid a all achosi poen yn y llygaid ac os na chaiff ei drin gall arwain at ddallineb.^{102, 103}



TUA 15% O BLANT

Canran y plant â JIA yn y DU sy'n datblygu Syndrom Ysgogi Macroffag (MAS) – cyflwr llidiol prin.¹⁰⁴

06

**CYFLYRAU LLE
MAE ARTHRITIS
YN UN SYMPTOM
YMYSG LLAWER**

LWPWS



“

Un diwrnod es i i'r sinema a es i'n sâl iawn. Pan ddaeth y ffilm i ben, ni allwn roi fy nhraed ar y ddaear, roeddwn mewn poen dirdynnol. Roedd fel pinnau a nodwyddau ond 1,000 gwaith yn waeth. Roedd yn rhaid i mi gael fy nghario allan o'r sinema. Roedd yn frawychus.

Yn fuan ar ôl i mi gyrraedd adref i Lundain, es i fy ysbyty lleol ar gyfer profion pellach. Arweiniodd hyn at ddiagnosis o lwpws.

”

Monique

LWPWS

Mae lwpws (lupus erythematosus systemig, SLE) yn gyflwr lle mae'r system imiwedd, sef system hunan-amddiffyn naturiol y corff, yn ymosod ar y corff. Mae lwpws yn effeithio'n gyffredin ar y cymalau, gan achosi arthritis gyda llid, chwyddo, anystwythder, poen a difrod. Gall hefyd ymosod ar organau eraill gan gynnwys y croen, yr arennau, yr ysgyfaint, a'r system nerfol.

Cyffredinrwydd a mynychder

Amcangyfrifir bod gan

70,000

o bobl yn y DU lwpws.¹⁰⁵

3,000

Nifer y bobl sy'n cael diagnosis o lwpws o'r newydd bob blwyddyn.¹⁰⁵

Ffactorau Risg



Oedran - Mae dechreuad mewn menywod rhwng 15 a 40 oed fel arfer.



Dynion a menywod - mae lwpws yn fwy cyffredin mewn menywod.



Cefndir ethnig - Mae lupws yn arbennig o gyffredin mewn menywod o darddiad Affricanaidd, Caribïaidd a Tseineaidd.



Etifeddiaeth - Ffactorau genetig, genomig ac epigenetig a etifeddwyd.¹⁰⁶



Mircrobiome - Newidiadau yn y microbiome.¹⁰⁷

Lwpws a chyflyrau hirdymor eraill



Mae gan gleifion â lwpws gyfradd marwolaethau bron i

2 GWAITH YN UWCH

na'r rhai heb lwpws.¹⁵⁷



Mewn cleifion â lwpws ysgafn, sy'n fwy na 10 mlynedd o hyd, mae cynnydd o

3-4 GWAITH

yn y risg o ddiwyddiadau cardiofasgwlaidd a marwolaeth o'i gymharu â phobl nad oes ganddynt lwpws.¹⁵⁹

07

**CYFLYRAU
CYHYRYSGERBYDOL
ERAILL**

POEN CRONIG



Pan ddechreuodd hi gyntaf, roeddwn i'n gaeth i'r gwely ac yna es i'r gadair olwyn ac yn araf bach roeddwn i'n gallu dechrau cerdded gyda'r ffon. Fe wellodd, ond ni aeth i ffwrdd. Rydw i mewn poen cyson i fod yn onest.

Rwyf wedi dysgu rheoli'r boen a byw ag ef. Yn y bore, cyn gynted ag y byddaf yn codi mae'n cymryd tua 3 awr i mi sythu. Rwy'n codi'n araf ac yna rwy'n ceisio cymryd ychydig o gamau a chymryd fy meddyginiaethau. Dw i ddim wedi gallu cerdded nawr ers peth amser.

Kokila



POEN CRONIG

Poen yw un o brif symptomau cyflyrau MSK. Diffinnir poen cronig fel poen sydd wedi para am fwy na thri mis – sy'n effeithio ar rhwng **18.4 MILIWN** (34%)¹² a **28 MILIWN** o bobl (43%) yn y DU.¹¹⁸

Poen cronig yn Lloegr

15,500,000
Nifer y bobl (34%) sydd â phoen cronig yn Lloegr.¹²

5,500,000
Nifer y bobl (12%) sydd â phoen cronig effaith uchel, sy'n ddifrifol a lle nad yw pobl yn gallu cyflawni eu gweithgareddau dyddiol.¹²


Mae mwy o fenywod yn cael eu heffeithio gan boen cronig na dynion.

Mae gan **38% O FENYWOD** boen cronig yn Lloegr o gymharu â **30% O DDYNION**.¹²

Mae gan **14% O FENYWOD** boen cronig effaith uchel o gymharu â **9% O DDYNION**.¹²


Mae poen cronig yn cynyddu gydag oedran yn cynyddu, ond gall pobl o bob oed ei gael.

